Adroddiad ar

Cylch Meithrin Bwlchygroes

Cylch Meithrin Bwlchygroes
Yr Hen Ysgol
Neuadd Bwlchygroes Hall
Sir Benfro
SA35 0DP

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Bwlchygroes

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Bwlchygroes |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal ddydd sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Sion Jones |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Georgina Davies |
| Nifer y lleoedd | 24 |
| Amrediad oedran y plant | 2 – 3 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 3 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 3 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Dydd Iau 9 – 11.30 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi, ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu a allai ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 12 Mawrth 2020 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Tachwedd 2017 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 25/03/2025 |
| Ychydig iawn o blant sy'n dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg ar yr aelwyd. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1. Sicrhau bod targedau yn canolbwyntio ar elfennau penodol o ddatblygiad i gefnogi unigolion yn effeithiol.

A2. Sicrhau bod arweinwyr yn rhoi gwybod i AGC am bob digwyddiad arwyddocaol o fewn y terfyn amser cywir.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae gan blant lais cryf yn y lleoliad. Maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau am sut i dreulio eu hamser. Ar gyfer rhannau helaeth o bob sesiwn, gall y plant ddewis yr hyn y maent eisiau chwarae gyda. Maent yn defnyddio'r amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau diddorol i lywio eu cyfleoedd chwarae eu hunain ac i ddatblygu eu syniadau. Mae bron pob plentyn yn cyfathrebu'n hyderus, ac yn gwybod y bydd yr ymarferwyr yn gwrando arnynt ac yn ymateb iddynt.

Mae gweithdrefnau setlo cadarn a hyblyg yn helpu'r plant i deimlo'n ddiogel ac caniatáu iddynt ymlacio. Mae bron pob plentyn yn cyrraedd yn hapus ac yn mynd ati i chwarae’n ddidrafferth ac yn teimlo’n gartrefol yn y lleoliad. Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau cynnes ac agos gydag ymarferwyr ac yn gwybod y gallant sôn wrthynt am yr hyn y maent ei eisiau. Er enghraifft, mae plant yn gofyn am fwy o ddŵr pan fydd syched arnynt, neu’n holi am gael darllen stori gydag ymarferydd pan fydd awydd arnynt.

Mae'r plant yn ymddwyn yn dda iawn ac yn briodol ar gyfer eu hoedran a'u camau datblygiad. Mae bron pob plentyn yn cyd-chwarae neu'n chwarae ochr yn ochr â'i gilydd. Maent yn annog ei gilydd i gwblhau tasgau ac yn cydnabod pan maent wedi cyflawni hyn. Mae'r plant yn gyfarwydd iawn â threfniadau'r dydd. Maent yn dysgu i ddilyn rheolau ac i barchu pobl eraill ac eiddo, er enghraifft pan fyddant yn cydweithio er mwyn helpu i dacluso.

Mae bron pob plentyn yn ymddiddori'n frwd ac yn barhaus yn eu chwarae. Mae amrywiaeth eang o weithgareddau diddorol a chyffrous iddynt ddewis o'u plith. O ganlyniad, mae'r plant yn dysgu sut i ganolbwyntio a dyfalbarhau, ac mae bron pob un ohonynt yn treulio cyfnodau estynedig yn cymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis. Er enghraifft, maent yn creu llwybr ar draws yr ystafell ac yn cyfri sawl cam o un pen i’r llall. Maent hefyd yn gallu enwi lliwiau yn hyderus a chyfri rhifau’r cloc sydd ar y wal. Mae cyfnodau grŵp gwerthfawr dan arweiniad oedolion hefyd o fudd i'r plant, er enghraifft mae’r cyfnodau amser cylch a chanu yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i’r plant ddatblygu eu geirfa. Ar y cyfan, mae'r plant yn dangos brwdfrydedd wrth ymuno yn y cyfnodau hyn.

Mae'r plant yn datblygu ac yn dysgu'n dda drwy'r cyfleoedd eang a ddarperir iddynt. Drwy symud rhwng gweithgareddau a dilyn eu diddordebau eu hunain, maent yn meithrin hyder wrth wneud dewisiadau ac yn gofyn am help pan fydd ei angen arnynt. Maent yn meithrin annibyniaeth ac yn cyflawni tasgau ymarferol drostynt eu hunain. Er enghraifft, maent yn gwisgo a thynnu eu cotiau, ac yn rheoli eu hanghenion personol fel golchi a sychu eu dwylo'n annibynnol, yn dewis byrbryd ac yn arllwys diod eu hunain.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu’r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae arweinwyr wedi datblygu amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol er mwyn helpu'r ymarferwyr i gadw'r plant yn ddiogel. Cânt eu hadolygu bob blwyddyn. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gadarn iawn am sut i amddiffyn plant ac yn gwybod beth i'w wneud os bydd ganddynt unrhyw bryderon. Mae ymarferwyr yn gweithio'n dda i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn dilyn polisïau a gweithdrefnau trwyadl y lleoliad mewn perthynas â hylendid ac iechyd a diogelwch. Maent yn cwblhau cofnodion perthnasol a manwl ar gyfer damweiniau a digwyddiadau. Mae arweinwyr yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw gyda’r plant. Maent yn darparu byrbrydau iach a llaeth neu ddŵr i'w yfed. O ganlyniad, maent wedi cael eu cymeradwyo fel darpariaeth addas i blant yn unol â chanllawiau bwyd a maeth cenedlaethol. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn galluogi'r plant i dreulio gymaint o amser ag sy’n bosibl yn yr awyr agored gan sicrhau eu bod yn cael digon o awyr iach ac ymarfer corff. Mae ymarferwyr yn cadw cofrestrau presenoldeb cywir a llyfr ymwelwyr ac yn cynnal ymarferion tân, sydd oll yn cyfrannu at sicrhau darpariaeth ddiogel i'r plant. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae ymarferwyr yn ofalgar ac yn gefnogol. Maent yn rhyngweithio â'r plant mewn ffordd gynnes, hamddenol a chyfeillgar, gan greu awyrgylch cadarnhaol, hapus a bywiog. Mae ymarferwyr yn bwyllog ac yn barchus wrth siarad â'r plant ac wrth siarad â'i gilydd, gan gynnig esiampl da i'r plant. Er enghraifft, maent yn diolch i’r plant am helpu i dacluso ac yn eu canmol am aros eu tro. Mae polisi rheoli ymddygiad addas yn annog yr ymarferwyr i ddefnyddio technegau cadarnhaol fel esbonio ac arddangos. O ganlyniad, mae'r plant yn dysgu sut i reoli eu hymddygiad eu hunain mewn awyrgylch sy'n meithrin ac yn hyrwyddo eu hunan-barch.

Mae ymarferwyr yn llwyddo i ddiwallu anghenion pob plentyn yn effeithiol, ac mae ganddynt ganllawiau mewn lle i gefnogi’r plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae systemau da iawn ar waith i gefnogi'r plant a'u teuluoedd, ac o ganlyniad maent yn adnabod y plant yn eithriadol o dda. Mae ymarferwyr yn cydweithio’n effeithiol ag asiantaethau allanol fel athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol ac yn gweithredu ar wybodaeth y cawsant yn dilyn hyfforddiant. O ganlyniad, mae pob plentyn yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad.

Mae ymarferwyr yn ymatebol iawn i anghenion unigol y plant. Maent yn chwarae'n effeithiol gyda nhw er mwyn cefnogi ac ehangu'r dysgu, er enghraifft, trwy ddefnyddio amrywiaeth eang o iaith fathemategol, archwilio llyfrau, trafod syniadau a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cynllunio amrywiaeth gyffrous o weithgareddau a phrofiadau perthnasol ym mhob un o'r meysydd dysgu a datblygu. Maent yn ystyried hoff deganau, offer a diddordebau'r plant wrth gynllunio, ac yn deall pwysigrwydd caniatáu iddynt barhau i chwarae am gyfnodau estynedig pan fydd rhywbeth o ddiddordeb arbennig.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae ymarferwyr yn meithrin perthynas hyfryd gyda'r plant, gan werthfawrogi cyfraniad pob plentyn. Maent yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cynnig profiadau gwerthfawr ac yn ymateb i anghenion y plant yn llwyddiannus, yn unol ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru. O ganlyniad, mae plant yn chwilfrydig i chwarae am gyfnodau estynedig, gan ymgolli'n llwyr.

Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu sydd yn ennyn diddordeb pob plentyn. Mae llais y disgybl yn glir yn y cynllunio ac mae ymarferwyr yn sicrhau bod barn a syniadau plant yn cael eu hystyried wrth weithredu'r cynlluniau yma. Er enghraifft, ar ôl arsylwi ar chwilfrydedd plant am gregyn, maent wedi ychwanegu cregyn at y ddarpariaeth, cynllunio ymweliadau cysylltiedig i'r tŷ chregyn yn yr ardal leol a chynllunio gweithgareddau difyr iddynt.

Maent yn sicrhau bod y plant yn fentrus ac yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus drwy gynllunio profiadau buddiol. Mae ystod o brofiadau dysgu a chwarae tu fewn a thu allan yn cael effaith cadarnhaol ar ddatblygiad y plant. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant ddysgu'n ymarferol ac i fod yn greadigol, megis addurno mwgwd yn yr ardal marcio neu adeiladu castell tywod a'i addurno gydag adnoddau naturiol..

Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu sydd yn annog annibyniaeth y plant i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol, medrus. Maent yn cynnig cyfleoedd iddynt roi past ar frws dannedd, dewis byrbryd, arllwys diod, taenu menyn ar gracers a thorri ffrwythau yn annibynnol.

Mae ymarferwyr yn darparu ystod eang o weithgareddau amrywiol ac adnoddau o ansawdd uchel sy'n datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol y plant yn dda. Er enghraifft, mae ganddynt het amser cylch, sydd yn dal adnoddau i ennyn diddordeb plant a'u helpu i gyfri ac adnabod llythrennau. Mae hyn hefyd yn datblygu eu medrau cyfathrebu yn dda. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd medrus o gyfnodau o chwarae. Maent yn chwarae ochr yn ochr â'r plant yn bwrpasol er mwyn hyrwyddo'r dysgu'n llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn mynd ar y bws gyda'r plant tu allan, gan ganu 'Mae'r olwynion ar y bws yn troi a throi', neu'n esgus cwympo i'r dŵr a gofyn am help wrth groesi'r afon.

Mae ymarferwyr yn cadw cofnodion manwl o gyflawniadau plant ac mae cynllunio wythnosol yn gosod targedau unigol. Maent yn cynnal arsylwadau gwerthfawr yn gyson gan ganolbwyntio ar gynnydd plant, ac mae systemau cofnodi'r arsylwadau yma'n drwyadl. Fodd bynnag, nid yw'r targedau yn canolbwyntio ar elfennau penodol o ddatblygiad i gefnogi unigolion yn fwy effeithiol.

Mae gan ymarferwyr ddulliau cadarn sy'n sicrhau ymdeimlad o berthyn i'r gymuned a Chymru. Maent yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i'r plant ymweld â'r gymuned leol, megis drwy ddosbarthu cardiau Nadolig a gwahodd ymwelwyr i'r Cylch yn achlysurol. Maent yn hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o draddodiadau a dathliadau diwylliannau Cymru a'r byd, megis Dydd Gŵyl Dewi a Ramadan.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol y plant yn gadarn. Er enghraifft, maent yn canu gweddi i ddiolch am y bwyd yn ystod amser snac. Mae ymarferwyr yn dysgu'r plant am y gwahaniaeth rhwng da a drwg a phwysigrwydd parchu eraill. Maent yn cefnogi'r plant yn effeithiol i fod yn garedig ac yn annog iddynt barchu ei gilydd trwy sicrhau bod pawb yn holi ac yn ateb i 'sut wyt ti?' yn ystod amser cylch.

## Yr amgylchedd: Da

Mae'r gwasanaeth wedi ei leoli o fewn yr hen ysgol gynradd. Mae'n gynnes ac yn cael ei gynnal yn dda iawn. Mae'r safle yn ddiogel ac mae'r drysau wedi'u cloi. Nid oes neb yn gallu cael mynediad oni bai fod ymarferwyr yn rhoi caniatâd iddynt ac yn agor y drws. Mae arweinwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant trwy ddarparu gweithdrefnau sy'n sicrhau bod unrhyw beryglon posibl yn cael eu hadnabod, eu monitro a'u rheoli'n effeithiol. Maent wedi llunio asesiadau risg trylwyr sy'n amlinellu peryglon posibl a'r camau sydd wedi eu cymryd i leihau neu atal y risg i blant. Maent hefyd yn gwirio'r dogfennau yma'n gyson, ac yn cwblhau asesiadau ychwanegol ar gyfer unrhyw weithgareddau newydd, gan gynnwys teithiau allan o'r lleoliad. Mae ymarferwyr yn cwblhau gwiriadau dyddiol o'r ardaloedd chwarae, teganau ac adnoddau ac yn cadw cofnod o unrhyw gamau pellach sydd angen eu dilyn. Mae ymarferwyr yn delio gydag unrhyw beryglon sy'n cael eu canfod yn gyflym ac yn effeithiol. Er enghraifft, trwy lanhau llaeth oddi ar bwrdd a'r llawr er mwyn lleihau'r risg o lithro.

Mae'r ystafell chwarae yn gyfforddus a chysurus ac mae digon o le i blant symud o gwmpas yn rhwydd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn cael teimlad o berthyn trwy arddangos esiamplau o'u gwaith ar y waliau gan gynnwys ffotograffau'r plant yn eu chwarae. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod yr ystafell chwarae yn cynnig ystod eang o weithgareddau ac adnoddau ysgogol a chyffrous sy'n cyfoethogi profiadau'r plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, ceir ardal baentio, llyfrau darllen, adnoddau marcio o fewn ardaloedd chwarae fel y tŷ bach twt, a'r rhain yn ysgogi plant i ddefnyddio'u dychymyg trwy greu rhestr o fwyd sydd angen o'r siop. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn sicrhau bod yr ardal chwarae tu allan yn cael ei ddefnyddio yn ddyddiol ac yn estyniad ar yr amgylchedd dysgu. Mae'r ardal tu allan wedi'i rannu'n ardaloedd ag ynddo adnoddau da i'r plant fedru archwilio a chwarae'n frwdfrydig. Mae'n gaeedig ac yn cynnig profiadau chwarae yn y gegin fwd, ardal tywod a ffau helyg lle gall y plant ddarllen straeon ac edrych ar lyfrau. Yn ogystal â hyn, mae'r beics a'r ceir y cynnig cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu sgiliau corfforol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ystod eang o adnoddau yn lân ac o ansawdd da. Maent yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Mae'r rhain yn cynnwys dewis da o adnoddau sydd yn annog cyfleoedd cyfartal ac ymwybyddiaeth amlddiwylliannol, sydd yn weladwy yn ardaloedd chware byd bach a gwisgo lan. Mae gan y lleoliad ddodrefn ac adnoddau maint addas er enghraifft, ceir byrddau a chadeiriau isel. Mae toiledau a chyfleusterau newid cewyn addas ar gael i'r plant ac maent yn medru cyrraedd rhain yn annibynnol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae arweinwyr yn hyrwyddo arferion diogel a diwylliant o ddiogelwch, gyda pholisïau, gwybodaeth diogelu a dogfennaeth briodol ar gael ar hysbysfwrdd y cylch wrth y drws flaen. Mae ethos cadarnhaol yn y lleoliad lle mae plant a staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac mae yma berthynas waith gadarnhaol rhwng yr arweinwyr a'r ymarferwyr. Mae gan y sefydliad ddatganiad ddiben clir sy'n cynnig darlun cywir o'r lleoliad. Maent yn cyflwyno 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg, yn cydymffurfio â rheolau AGC ac yn bodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol. Fodd bynnag, nid ydynt o hyd yn hysbysu AGC am pob ddigwyddiadau arwyddocaol, er enghraifft pan maent ar gau oherwydd eu bod allan ar deithiau neu ar ymweliadau i'r ysgol.

Mae'r lleoliad yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu staff yn effeithiol ac yn eu hannog i fynychu hyfforddiant pwrpasol yn gyson. Caiff hyn effaith bositif ar safonau dysgu ac addysgu o ddydd i ddydd. Maent yn manteisio ar adolygiadau, cyngor ac adborth gan asiantaethau allanol, megis yr athrawes ymgynghorol a'r Mudiad Meithrin. Maent yn mynd i'r afael â phryderon yn effeithiol, gan gyfeirio'n bwrpasol at yr asiantaethau cywir er mwyn cynorthwyo unigolion.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn creu cysylltiadau gwerthfawr gyda'r gymuned ehangach er mwyn meithrin ymdeimlad o berthyn yn y plant. Er enghraifft, maent yn creu torch i'w osod yn y gymuned ar Ddydd y Cofio ac yn cynnal partion i'r gymuned yn achlysurol. Mae gweithdrefnau pontio cadarn yn eu lle i sicrhau bod y plant yn trosglwyddo'n llwyddiannus i'r ysgol. Er enghraifft mae'r plant yn ymweld â'r ysgol yn aml, ac mae staff yr ysgol yn ymweld â'r Cylch sy'n lleihau pryder y plant wrth drosglwyddo.

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu'r materion y maent yn dymuno'u gwella ac yn gweithredu arnynt yn effeithiol, er enghraifft maent wedi mynychu hyfforddiant yn ddiweddar mewn ymateb i dargedau'r cynllun gwella. Maent yn sicrhau bod staff yn cael cyfleoedd i gyfrannu at hunan arfarniad y lleoliad yn bwrpasol.

Mae'r defnydd o'r gyllideb a grantiau yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r lleoliad yn effeithiol. Mae arweinwyr yn dyrannu adnoddau'n ddoeth ac yn cyllido cyfarpar defnyddiol, yn unol â thargedau'r lleoliad. Er enghraifft, maent wedi datblygu'r ardal allanol drwy buddsoddi mewn arwyddion lliwgar i gyfoethogi llythrennedd a bwydo geirfa yn yr ardaloedd tu allan. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth yn cynnig cyfleoedd ystyrlon â chyd-destun go iawn i blant ddatblygu eu gwybodaeth a'u medrau.

Mae arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel, cadarn ac amserol ac mae gan bob ymarferydd gontract cyflogaeth a swydd-ddisgrifiad perthnasol. Mae'r broses rheoli perfformiad wedi sefydlu'n bwrpasol, a cheir cofnodion cynhwysfawr o ganfyddiadau a thargedau'r ymarferwyr.

Mae gan yr arweinwyr a'r ymarferwyr berthynas cadarn â rhieni a gofalwyr. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol â nhw er mwyn gweithio'n effeithiol i wella lles a dysgu'r plant o ddydd i ddydd. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn defnyddio amrywiaeth o apiau a chyfryngau cymdeithasol mewn modd pwrpasol i olrhain cynnydd a chyfathrebu yn fedrus. Gwneir defnydd da o'r rhain i hysbysu rhieni a gofalwyr o negeseuon pwysig, digwyddiadau ac i adrodd yn unigol ar ddatblygiad a gofal plant drwy luniau. Gwneir defnydd gwerthfawr o luniau a champweithiau'r plant i ddangos cynnydd unigolion yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad gyda chyd-bwysedd o waith a lluniau o'r plant ar waith ynddynt.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol/Prysg (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/06/2025